




PATIENTS GUIDE

WELCOME TO SKANDA VALE HOSPICE!

Living with a life-limiting illness – and the changes it brings – can feel isolating and overwhelming.

Our role is to be alongside you and those close to you: easing some of the pressure, offering warmth, support and good company, creating a sense of lightness, a change of pace, and something to look forward to.

We aim to create space — space to rest, to talk, to reflect, and to be cared for in ways that feel right for you.

ABOUT US

In 1987, the founder of Skanda Vale Monastery, Guru Sri Subramaniam, suffered a severe heart attack. While recovering in hospital, he noticed an elderly man dying alone, without family or friends. Despite their commitment, the nurses were only able to spend short periods of time with him. The man died feeling lonely and afraid.

This moment revealed something important: hospitals, despite their skill and dedication, can struggle to meet the whole-person needs of people living with life-limiting illnesses. Skanda Vale Hospice grew in response to that insight — shaped by a belief that presence, time and human connection matter.

CROESO I SKANDA VALE HOSPICE!

Gall byw gyda salwch sy'n cyfyngu ar fywyd – a'r newidiadau â ddaw yn ei sgîl – deimlo'n ynysig ac yn llethol.

Ein rôl ni yw bod wrth eich ochr a'r rhai sy'n agos atoch: yn lleddfu peth o'r pwy-sau, yn cynnig cynhesrwydd, cefnogaeth a chwmni da, yn creu ymdeimlad o ysgafnder, o arafu, a rhywbeth i edrych ymlaen ato.

Ein nod yw creu gofod — gofod i orffwys, i sgwrsio, i fyfyrto, ac i dderbyn y gofal sy'n teimlo'n iawn i chi.

AMDANON NI

Ym 1987, trawyd sylfaenydd Mynachlog Skanda Vale, Guru Sri Subramaniam, gan drawiad difrifol ar y galon. Wrth wella yn yr ysbyty, sylwodd ar hen ddyn yn marw ar ei ben ei hun, heb na theulu na chyfeillion. Er eu hymroddiad, dim ond am gyfnodau byr roedd y nyrsys yn medru aros gydag ef. Bu i'r dyn farw yn teimlo'n unig ac yn ofnus.

Roedd yr ennyd hyn yn amlygu rhywbeth pwysig: mae ysbytai, serch eu sgiliau a'u hymroddiad, yn ei chael yn anodd ymateb i holl ofynion y person sy'n byw gydag afiechydon sy'n cyfyngu ar fywyd. Tyfodd Skanda Vale mewn ymateb i'r mewnwel-

From the beginning, most of our team — including senior leadership — have been volunteers who freely offer their time, skills and experience. A small number of paid staff provide expertise and continuity in key roles, but the heart of what we do depends on people choosing to be here.

HOW OUR SERVICES HAVE DEVELOPED

Our work has grown gradually, responding to need:

- 1993 – Home care service begins (ending in 2003)
- 2004 – Day care respite centre opens
- 2016 – Inpatient respite services are phased in
- 2024 – Ongoing planning for the introduction of 24/7 respite and end-of-life care

We're registered with Healthcare Inspectorate Wales as an independent hospital, which means we follow rigorous care standards and undergo regular inspections. We welcome anyone aged 18 or over living with a life-limiting diagnosis, regardless of faith, race or background. What matters is whether we can safely meet your needs and whether our approach feels right for you.

Our latest HIW inspection report is available to download from the HIW website.

hiw.org.uk

ediad hwnnw — wedi ei lywio gan gred bod presenoldeb, amser, a chyswllt dynol yn cyfrif.

O'r cychwyn, mae rhan fwyaf o'n tîm — gan gynnwys yr uwch arweinyddiaeth — wedi gwirfoddoli, yn cynnig eu hamser, eu sgiliau, a'u profiad am ddim. Mae nifer bychan o staff cyflogedig yn darparu arbenigedd a chysondeb mewn rolau allweddol, ond mae calon ein gwaith yn dibynnu ar bobl sy'n dewis bod yma.

SUT MAE'N GWASANAETHAU WEDI DATBLYGU

Mae ein gwaith wedi tyfu'n raddol, gan ymateb i'r galw:

- 1993 – Gofal yn y cartref yn cychwyn (gorffen yn 2003)
- 2004 – Canolfan dydd gofal ysbeidiol yn agor
- 2016 – Yn raddol cyflwyno gwasanaethau gofal seibiant
- 2024 – Cynllunio'n parhau ar gyfer cyflwyno gofal seibiant a gofal diwedd oes 24/7

Rydym wedi cofrestru gydag Arolygaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n golygu ein bod yn dilyn safonau gofal llym ac yn cael ein harolygu'n rheolaidd. Rydym yn croesawu unrhyw un 18 oed a throsodd sy'n byw gyda diagnosis cyflwr cyfyngu ar fywyd, waeth beth eu ffydd, hil, neu gefndir. Yr hyn sy'n bwysig yw a fedrwn ymateb yn ddiogel i'ch gofynion ac os yw ein ffyrdd ni o weithio yn teimlo'n iawn i chi.

Gellwch lawlwytho adroddiad diweddaraf AGIC arnom ar wefan AGIC.

agic.org.uk

HOW WE SUPPORT YOU

The hospice offers a small number of carefully shaped services, designed to provide support, rest and connection.

We currently offer:

- Day Hospice, held each Wednesday
- Overnight Respite, currently offered for up to five days and four nights per month
- From early 2026, this will increase to up to seven days and six nights per month
- Remote Companion Support, offering regular, friendly phone or video conversations

How often we are able to welcome you will depend on your individual needs and our availability. We will always discuss this openly with you.

WHAT YOUR TIME WITH US MAY FEEL LIKE

People often ask what their time at the hospice will be like. While everyone's experience is different, certain qualities shape daily life here.

You can expect warmth and kindness from a team committed to your wellbeing. There are shared spaces where you can spend time with others, as well as quiet areas where you can rest without interruption. Many people value the gardens and countryside views, which offer a gentle change of scenery.

Care and comfort are supported by practical facilities and equipment, including assisted bathing with a hydraulic bath and ceiling hoist, pressure-relieving mattresses, profiling beds and accessible en-suite

SUT YDYM YN EICH CEFNOGI

Mae'r hosbis yn cynnig nifer fechan o wasanaethau sydd wedi eu cynllunio'n ofalus, i ddarparu cefnogaeth, gorffwys, a chysylltiad.

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig:

- Hosbis Dydd, bob dydd Mercher
- Seibiant dros nos, cynigir hyd at bum diwrnod a phedwar noson y mis ar hyn o bryd,
- Yn cychwyn yn gynnar yn 2026, bydd hyn yn codi i hyd at saith diwrnod a chwe noson y mis.
- Cefnogaeth Cyfaill o Bell, yn cynnig sgysiau ffôn cyson, cyfeillgar neu sgysiau fideo.

Bydd pa mor aml rydym yn gallu eich croesawu yn dibynnu ar eich anghenion unigol ac ar ein hargaeledd. Byddwn ni wastad yn trafod hyn yn agored gyda chi.

SUT BYDD EICH AMSER GYDA NI YN TEIMLO

Mae rhai yn holi'n aml ynghylch sut brofiad yw hi i fod yn yr hosbis. Tra bod profiad pawb yn wahanol, mae rhai nodweddion yn llywio bywyd pob dydd yma.

Gallwch ddisgwyl cynhesrwydd a charedigrwydd gan dîm sydd wedi ymrwymo i'ch lles. Mae yma ofodau sy'n cael eu rhannu lle gallwch dreulio amser gydag eraill, yn ogystal â mannau tawel lle gallwch orffwys heb neb yn tarfu arnoch. Mae nifer o bobl yn gwerthfawrogi'r gerddi a'r golygfeydd o gefn gwlad, sy'n cynnig newid tawel i'r olygfa.

Cefnogir gofal a chysur gan yr adnoddau a'r offer, yn cynnwys cymorth i ymolchi gyda bath hydrolig a pheiriant codi, matr-

bedrooms. Fast Wi-Fi and a hotel-style TV system are also available.

Food is an important part of hospice life. We offer freshly prepared meals and snacks, shaped around your dietary needs and preferences.

Alongside this, we offer complementary therapies such as reflexology, acupuncture and massage. These aren't curative treatments, but they can ease symptoms, help you relax, and provide the kind of attentive physical care that feels healing. Art and craft activities are available for those who enjoy them, though there is never any expectation to take part.

Clinical support includes 24-hour nursing care and a consultation with one of our palliative care doctors. There are also opportunities for private, one-to-one conversations with members of the team — time to talk through concerns, questions or anything that feels important to you.

THE PEOPLE WHO WILL SUPPORT YOU

Our team includes registered nurses, doctors, carers, companions and complementary therapists — many with decades of palliative care experience. What distinguishes them isn't just expertise, but the ability to read a room, to know when to speak and when to simply be present, to remember that you mentioned your daughter's visit next week.

We invest in ongoing training and development, supporting our team to combine professional knowledge with genuine attentiveness and presence.

While you may receive support from our in-house nurses and medics, responsibility for your medical care remains with your GP and specialist teams. This helps ensure

esi esmwytho pwysedd, gwelyau proffilio, ac ystafelloedd gwely hygyrch en-suite. Mae Wi-fi cyflym a system teledu steil gwesty hefyd ar gael.

Mae bwyd yn rhan bwysig o fywyd hosbis. Rydym yn cynnig prydau wedi eu paratoi'n ffres a byrbrydau, sy'n cyd-fynd â gofynion eich diet a'ch dewisiadau.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cynnig therapïau cyflenwol megis adweitheg, aciwbigo, a thylino. Nid yn driniaethau gwella ond maen nhw'n gallu esmwytho symptomau, eich cynorthwyo i ymlacio, a darparu'r math o ofal corfforol sylwgar sy'n teimlo'n iachusol. Mae gweithgareddau celf a chreffft ar gael i'r rhai hynny sy'n eu mwynhau, ond nid oes unrhyw ddisgwyliad i chi gymryd rhan.

Mae cefnogaeth glinigol yn cynnwys gofal nyrsio 24 awr ac ymgynghoriad gydag un o'n meddygon gofal lliniarol. Ceir cyfl-eoedd hefyd am sgysiau preifat, un-i-un gydag aelodau'r tîm — amser i drafod pryderon, gofyn cwestiynau neu unrhyw beth sy'n bwysig i chi.

Y BOBL FYDD YN EICH CEFNOGI

Mae ein tîm yn cynnwys nyrsys cofrestedig, meddygon, gofalwyr, cymdeithion, a therapyddion cyflenwol — nifer ohonynt gyda degawdau o brofiad mewn gofal lliniarol. Nid arbenigedd yw'r hyn sy'n eu gwneud yn neilltuol ond eu gallu i ddeall y sefyllfa, i wybod pryd i siarad a phryd i beidio, i fod yn dawel bresennol, i gofio eich bod wedi sôn am ymweliad eich merch wythnos nesaf.

Rydym yn buddsoddi'n gyson mewn hyfforddiant a datblygu, yn cefnogi ein tîm i gyfuno gwybodaeth broffesiynol gyda sylwgarwch a phresenoldeb didwyll.

Er bod cefnogaeth gan ein nyrsys a med-

clarity, continuity and good coordination across all aspects of your care.

WHAT WE'RE UNABLE TO OFFER

It's important to be clear about what we can and cannot provide.

We are unable to offer advanced life support, intravenous therapies (including IV antibiotics), complex clinical interventions, or care for unstable conditions or advanced dementia.

We also cannot provide ad hoc or emergency respite. Our respite sessions are carefully planned well in advance to ensure we can meet each person's needs safely and attentively.

In an emergency, we provide basic life support and call an ambulance unless your Advance Care Plan states otherwise. Any limitations will be discussed carefully with you during your assessment.

dygon mewnol, bydd y cyfrifoldeb am eich gofal meddygol yn aros gyda'ch meddyg teulu a thimoedd arbenigol. Mae hyn yn gwarantu eglurder, dilyniant, a chydlynu da ymhob agwedd o'ch gofal.

BETH NA ELLIR EI GYNNIG GENNYM

Mae'n bwysig ein bod yn glir ynghylch yr hyn y gallwn a'r hyn na allwn ei gynnig.

Nid ydym yn gallu cynnig cefnogaeth cynnal bywyd datblygedig, therapïau mewnwythiennol (yn cynnwys gwrthfotigau mewnwythiennol), ymyraethau clinigol cymhleth, neu ofal am gyflyrau ansefydlog neu dementia datblygedig.

Nid ydym ychwaith yn gallu darparu gofal ad hoc neu brys. Mae ein sesiynau seibiant yn cael eu cynllunio ymhell o flaen llaw er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ateb gofynion pob un yn saff a gyda sylw priodol.

Mewn argyfwng, gallwn ddarparu cefnogaeth cynnal bywyd sylfaenol a galw ambiwlans oni bai bod eich Cynllun Gofal Ymestynedig yn nodi'n wahanol. Caiff unrhyw gyfyngiadau eu trafod yn ofalus gyda chi yn ystod eich asesiad.

ABOUT COST

All our services are offered without charge. This matters to us — it means you can focus on what you need without worrying about costs or feeling you're using 'too much' time.

We receive no government or Health Board funding and rely entirely on donations, fundraising and grants from people who believe this approach to care matters. There's no expectation for you or your family to donate.

REFERRALS

You are welcome to refer yourself, or someone else may refer you on your behalf. We will first check that you meet our eligibility criteria, followed by a more detailed assessment.

This assessment helps us understand what matters most to you and ensures we can meet your needs safely and appropriately. If we are not the right service for you, we will help guide you towards alternative support where possible.

YNGLŶN Â CHOST

Cynigir pob un o'n gwasanaethu yn rhad ac am ddim. Mae hyn yn bwysig i ni — mae'n golygu eich bod yn gallu canolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen arnoch chi heb boeni am gostau neu deimlo eich bod yn defnyddio 'gormod' o amser.

Nid ydym yn derbyn unrhyw gyllid gan y llywodraeth na'r Bwrdd Iechyd ac rydym yn llwyr ddibynnol ar gyfraniadau, codi arian, a grantiau gan y rhai hynny sy'n credu bod y ffordd hon o gynnig gofal yn bwysig. Nid oes unrhyw ddisgwyliad i chi na'ch teulu i gyfrannu.

CYFEIRIADAU

Mae croeso i chi gyfeirio chi eich hun neu gall rhywun arall eich cyfeirio ar eich rhan. Yn gyntaf, byddwn yn gwirio eich bod yn cwrdd â gofynion cymhwysedd ein meini prawf, ac yna cynnal asesiad mwy manwl.

Bydd yr asesiad hwn yn ein cynorthwyo i ddeall beth sydd mwyaf pwysig i chi ac yn sicrhau ein bod yn gallu ateb eich anghenion yn ddiogel ac addas. Os nad ni yw'r gwasanaeth cywir i chi, byddwn yn eich llywio tuag at gefnogaeth arall, lle bo hynny'n bosibl.

REMOTE COMPANION SUPPORT

This service offers regular phone or video conversations with hospice companions for patients, family members, or both. Many people find these conversations become a steady and reassuring point in their week or fortnight — a space to talk honestly, to be heard, and to maintain connection even from a distance.

This service can be particularly helpful for those living at a distance or for anyone who finds travel difficult.

DAY HOSPICE

Before attending Day Hospice, we'll spend time getting to know you and understanding your needs, so we can support you well.

You may be offered Day Hospice on a fortnightly or monthly basis, usually for six to eight sessions. After this, we'll review things together and discuss the most appropriate next steps.

Once you've been accepted onto the service, we'll contact you to arrange a start date.

OVERNIGHT RESPITE

Before staying with us, we'll carry out an assessment to ensure we can safely meet all your needs. Once this is complete and a suitable date is available, we'll be in touch to invite you to attend.

You'll need to bring your medications and any mobility aids you rely on. If you are able, you may manage your own medicines, or you can choose for our nurses to support you with this.

CEFNOGAETH CYFAILL O BELL

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig galwadau ffôn cyson neu sgyrsiau fideo gyda chyfeillion cleifion yr hosbis, aelodau teulu, neu'r ddau. Mae llawer o bobl yn cael bod y sgyrsiau hyn yn ddigwyddiad cyson yn eu hwythnos neu bythefnos a hynny'n cynnig tawelwch meddwl — cyfle i sgwrsio'n onest, i gael gwrandawriad, ac i gadw cysylltiad, er o bell.

Gall y gwasanaeth hwn fod o gymorth arbennig i'r rhai hynny sy'n byw yn bell neu i'r sawl sy'n ei chael yn anodd teithio.

HOSBIS DYDD

Cyn mynychu'r Hosbis Dydd, byddwn yn creu amser i ddod i'ch adnabod ac i ddeall eich anghenion fel ein bod yn gallu eich cefnogi'n well.

Efallai byddwn yn cynnig Hosbis Dydd i chi a hynny bob pythefnos neu'n fisol, chwech i wyth sesiwn sy'n arferol. Ar ôl hyn, byddwn yn adolygu'r sefyllfa gyda'n gilydd ac yn trafod y ffordd orau ymlaen. Unwaith byddwch wedi eich derbyn i'r gwasanaeth, byddwn yn cysylltu gyda chi i drefnu dyddiad cychwyn.

SEIBIANT DROS NOS

Cyn aros gyda ni, byddwn yn cynnal asesiad i sicrhau ein bod yn gallu ateb eich anghenion yn ddiogel. Unwaith bydd hyn wedi ei gwblhau a bod dyddiad addas ar gael, byddwn yn cysylltu gyda chi i'ch gwahodd i fynychu.

Bydd rhaid i chi ddod a'ch meddyginiaethau gyda chi ac unrhyw gymhorthion symudedd rydych yn ddibynnol arnyn nhw. Os ydych yn abl i wneud hynny, gallwch fod yn gyfrifol am eich meddyginiaeth chi

During your stay, your room and shared spaces — including the garden — are yours to enjoy with family and friends. You're welcome to join any activities taking place, but there is no pressure to do so. Our focus is on making your time here as restful and nurturing as possible.

The rhythm here is different from a hospital stay. There's no wake-up call, no schedule to keep unless you choose one. Some people spend time in the day room; others prefer quiet days in their room. Both are completely fine.

ADVANCE AND FUTURE CARE PLANNING

Many people find it helpful to think through decisions about future care while they're still feeling relatively well — things like where you'd want to be cared for if your condition worsens, what treatments you'd want or not want, who should make decisions on your behalf if you can't.

If this is something you'd like to explore, we have team members who can support these conversations with sensitivity and clarity. They can help you write an Advance Care Plan, assist with funeral planning if you want to address that, or help complete legal documents like Lasting Power of Attorney.

These conversations can happen as part of your day hospice or respite stay, or as a dedicated appointment if you prefer. There's no pressure — some people find it enormously relieving to have things written down; others prefer not to think too far ahead. Both approaches are valid.

eich hunan, neu gallwch ddewis i un o'n nyrsys i'ch cynorthwyo gyda hyn.

Yn ystod eich arhosiad, bydd eich ystafell a'r mannau rhannu — yn cynnwys yr ardd — yna i chi eu mwynhau gyda'ch teulu a'ch cyfeillion. Mae croeso i chi ymuno mewn unrhyw weithgareddau sy'n digwydd, ond nid oes unrhyw bwysau arnoch chi i wneud hynny. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod eich amser yma mor gysurus a thawel a phosibl.

Mae'r rhythm a'r nawws yma'n wahanol i arhosiad mewn ysbyty. Nid oes amser deffro, dim amserlen gaeth oni bai eich bod yn dewis un. Mae rhai pobl yn aros yn yr ystafell dydd, gwell gan eraill dyddiau tawel yn eu hystafelloedd. Naill a'r llall yn gwbl dderbyniol.

CYNLLUNIO GOFAL AT YMLAEN AT Y DYFODOL

Mae nifer o bobl yn ei chael hi'n ddefnyddiol i feddwl am benderfyniadau ynghylch y dyfodol tra eu bod yn teimlo'n cymharol dda — pethau fel ble byddech chi am dderbyn gofal os yw'ch cyflwr yn gwaethygu, pa driniaethau byddech chi am eu derbyn neu peidio eu derbyn, pwy ddylai gwneud penderfyniadau ar eich rhan os nad ydych chi'n gallu gwneud hynny.

Os yw'r rhain yn bethau yr hoffech chi edrych i mewn iddyn nhw, mae gennym aelodau o'r tîm fydd yn gallu hwyluso'r sgyrsiau hyn gyda sensitifrwydd ac yn eglur. Byddan nhw'n gallu eich cynorthwyo i ysgrifennu Cynllun Gofal Blaen-llaw, cynorthwyo gyda chynllunio angladd os ydych am drafod hynny, neu eich cynorthwyo i gwblhau dogfennau cyfreithiol megis Atwrniaeth Arhosol.

Gall y sgyrsiau hyn ddigwydd fel rhan o'ch cyfnod yn yr hosbis dydd neu yn ystod arhosiad seibiant, neu gydag apwyntiad

USER GROUP

Our informal User Group meets every three months, either at the hospice or online. It brings together patients, carers, family members and others who have been supported by Skanda Vale Hospice to share feedback, ideas and experiences.

If you'd like to be involved, please contact the admin team:

- svh.user.group@skandavale.org
- 01559 371222

CONFIDENTIALITY

We handle all your information confidentially, following data protection regulations. We'll only share appropriate information with other healthcare professionals — your GP, specialists, district nurses — with your consent, and only as necessary for coordinating your care safely.

penodol pe byddai well gennych. Nid oes unrhyw bwysau — mae rhai pobl yn cael rhyddhad mawr o wybod bod pob dim yn ysgrifenedig; mae'n well gan eraill peidio meddwl gormod i'r dyfodol. Mae'r ddwy agwedd yn ddilys.

GRŴP DEFNYDDWYR

Mae ein Grŵp Defnyddwyr anffurfiol yn cyfarfod bob tri mis, naill ai yn yr hosbis neu yn rhithiol. Mae'n dod â chleifion, gofawyr, aelodau teuluoedd ac eraill at ei gilydd, rhai sydd wedi derbyn cefnogaeth gan Hosbis Skanda Vale i rannu adborth, syniadau, a phrofiadau.

Os ydych am gymryd rhan, cysylltwch a'r tîm gweinyddol os gwelwch yn dda:

- svh.user.group@skandavale.org
- 01559 371222

CYFRINACHEDD

Rydym yn trin yr holl wybodaeth amdanoch chi yn gyfrinachol, yn dilyn rheoliau diogelu data. Byddwn ond yn rhannu gwybodaeth perthnasol gyda phobl broffesiynol gofal iechyd eraill — eich meddyg teulu, arbenigwyr, nyrsys cymuned — a hynny gyda'ch cydsyniad a dim ond yr hyn sy'n angenrheidiol er mwyn cydlynu eich gofal yn ddiogel.

FEEDBACK AND COMPLAINTS

We welcome feedback and suggestions, which help us improve what we offer.

If you have concerns or wish to make a formal complaint, feedback forms are available at Reception and can be posted, handed in, or completed online. Forms can also be downloaded and emailed to:

feedback@skandavalehospice.org

We aim to respond within 30 days. If you remain dissatisfied, you may appeal to the Chair of Trustees or contact the Public Services Ombudsman for Wales. Relevant contact details are provided below.

THANK YOU

We hope this guide gives you a clear sense of what to expect and how to access support.

Our fundamental aim is straightforward: to help you live as well as possible with your illness — to ease symptoms where we can, to create a space where pressures lift for a while, and to ensure you feel valued for who you are, not defined by your diagnosis.

If you have questions about anything in this guide, or about whether our services might be right for you, please get in touch.

We're always happy to talk.

ADBORTH A CHWYNION

Rydym yn croesawu adborth ac awgrymiadau sy'n ein helpu i wella'r hyn â gynigir gennym.

Os oes gennych chi bryderon neu os hofech gwyno'n swyddogol, mae ffurflenni adborth ar gael yn y Dderbynfa a gellir eu postio, eu cyflwyno â llaw, neu eu cwblhau ar-lein. Gellir hefyd lawr lwytho ffurflenni a'u e-bostio i:

feedback@skandavalehospice.org

Ein nod yw ymateb o fewn 30 diwrnod. Os ydych chi'n parhau'n anfodlon, gallwch apelio at Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr neu gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gwelir y manylion perthnasol isod.

DIOLCH

Ein gobaith yw bod yr arweiniad hwn yn rhoi syniad clir i chi o'r hyn gallwch chi ddisgwyl a sut i gael cefnogaeth.

Mae ein bwriad sylfaenol yn uniongyrchol: eich cynorthwyo i fyw cystal â phosibl gyda'r salwch — i leddfu symptomau lle gallwn, i greu gofod lle mae pwysau'n codi am ychydig, ac i sicrhau eich bod yn teimlo eich bod yn werthfawr, nid eich bod yn cael eich diffinio gan eich diagnosis.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych ynghylch unrhyw beth yn y cyflwyniad yma i'n gwaith neu ynghylch pa mor addas gall ein gwasanaethau fod i chi, cofiwch mae croeso i chi gysylltu â ni.

Rydym wastad yn hapus i sgwrsio.

CONTACT INFORMATION

Registered Manager
Skanda Vale Hospice
Saron, Llandysul
Carmarthenshire, SA44 5DY

- 01559 371 222
- feedback@skandavale.org
- skandavalehospice.org/your-feedback

Public Services Ombudsman for Wales

Phone: 0300 790 0203
Email: ask@ombudsman-wales.org.uk
Web: ombudsman-wales.org.uk
Twitter/X: @OmbudsmanWales

Address: 1 Ffordd yr Hen Gae,
Pencoed, CF35 5LJ

Healthcare Inspectorate Wales

Phone: 0300 062 8163
Email: hiw@gov.wales
Address: Rhydycar Business Park,
Merthyr Tydfil, CF48 1UZ

GWYBODAETH CYSWLLT

Rheolwr Cofrestredig Hosbis
Skanda Vale Hospice
Saron, Llandysul,
Sir Gaerfyrddin, SA44 5DY

- 01559 371 222
- feedback@skandavale.org
- skandavalehospice.org/your-feedback

Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: ask@ombudsman-wales.org.uk
Gwefan: ombudsman-wales.org.uk
Twitter/X: @OmbudsmanWales

Cyfeiriad: 1 Ffordd yr Hen Gae,
Pencoed, CF35 5LJ

Arolygaeth Gofal Iechyd Cymru

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Cyfeiriad: Rhydycar Business Park,
Merthyr Tudful, CF48 1UZ